# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(228)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys 1**
**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i adfer hyder y cyhoedd yn y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn sgil y digwyddiad yn Argoed a arweiniodd at farwolaeth dau o bobl?

**Cwestiwn Brys 2**
**Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweidog ddatganiad ar yr eiddo a brynwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud lle i 'lwybr du' yr M4 cyn y gwnaed penderfyniad terfynol ar y llwybr?

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Diweddariad ar Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ynghylch Diwylliant a Thlodi - Ymateb gan Lywodraeth Cymru (30 munud)**
**Dogfen Ategol**
[Trechu tlodi trwy ddiwylliant]

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Y Cyflenwad Tai (30 munud)**

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Asiantau Cefnffyrdd (30 munud)**

**Dogfen Atodol**

[Datganiad Ysgrifenedig - Trefniadau ar gyfer rheoli Traffyrdd a Chefnffyrdd Cymru]

**7 Dadl: Cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5613 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) Gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

b) Y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

c) Pecyn Cymorth gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Mae Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar gael o'r ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/armedforces/packagesupport/?lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi maniffesto y Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 a'i dogfen 'Community Covenants - What's Next?'

Mae Maniffesto'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 ar gael yn:

http://www.britishlegion.org.uk/media/4044612/Extend e d-Manifesto.pdf
(Saesneg yn unig)

Mae Cyfamodau Cymunedol y Lleng Brydeinig Frenhinol ar gael yn:
http://www.britishlegion.org.uk/media/3978192/ComCov_whats_next.pdf (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen:

a) i amddiffyn cyllid termau real ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr;

b) am ddarpariaeth gofal cymdeithasol teg i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog; ac

c) am ddarpariaeth breswyl ddigonol a phriodol i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaeth di-dor ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog sydd â phroblemau iechyd meddwl a achoswyd gan wasanaeth gweithredol.

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Lluoedd Arfog i sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer milwyr eisoes ar gael ar gyfer y rhai sydd ei angen pan fyddant yn gadael y gwasanaeth.

**8 Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 12 Tachwedd 2014